
OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2019 No. 1281

**Rheoliadau Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Diwygiadau
Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019**

RHAN 1

Rhagarweiniol

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), daw'r Rheoliadau hyn i rym ar y diwrnod ymadael.

(3) Daw rheoliadau 3, 4, 5 a 9 i rym yn union cyn y diwrnod ymadael.

(4) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.